

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod rhithiol Cyngor Cymuned Llanllyfni, a gynhaliwyd dros y wê, Nos Fawrth, 13eg Hydref 2020 am 7.00 o'r gloch.

Agenda

- 1. Presennol:** Sian Dafydd (Cadair), Gareth Lloyd Jones, Peter Bridges – Talysarn; Dafydd Thomas – Nebo, Ffion Jones – Nantlle; Iona Wyn Jones, Barry Bracegirdle, Dylan Herbert, Justin Davies, Erfyl Williams – Penygroes; Gwyndaf Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Judith Humphreys a Craig ab Iago - Cyngorwyr Sir;
Ymddiheuriadau: Harry Wyn Owen – Talysarn, Hefina Roberts – Llanllyfni. Ni dderbynniwyd ymddiheuriad gan y Cyngorydd Dilwyn Lloyd, Talysarn.
Roedd Iona Jones wedi adrodd ei bod yn gadael y cyfarfod am 7.30, a Justin Davies a Ffion Jones wedi ymddiheuro na fuasant yn cyrraedd tan 8.00.
Croesawyd pawb i'r cyfarfod a croesawyd Peter Bridges i'w gyfarfod cyntaf fel cyngorydd dros ward Talysarn
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag eitem rhif 16 Cais Cynllunio Taldwrst, Llanllyfni.** Gwyndaf Roberts yn datgan diddordeb ynglyn ag eitem rhif 16 Cais Cynllunio Taldwrst, Llanllyfni.
- 3. Cywirdeb cofnodion cyfarfod 8 Medi 2020.** Dafydd Thomas yn cywiro nad o oedd wedi bod o gwmpas yr mynwentydd gyda Harry Owen yn gweld os oedd canglwm yno, ond swyddog arall. Gareth Jones yn datgan y dylid nodi nad oes ymddiheuriad nag personoldeb yn dod gan y Cyngorydd Dilwyn Lloyd i ddim un cyfarfod. Barry Bracegirdle yn cynnig fod y cofnodion yn gywir ac eilwyd gan Gareth Jones.
- 4. Cyngorwyr Sir – Adroddiadau.** Cyngorydd Judith Humphreys – adroddwyd ar y gwahanol gyfarfodydd ac ymatebion i wahanol brosiectau y mae hi fel cyngorydd yn ymwneud a hwy. Dywedodd fod Gavin Jones o gwmni RJS Scaffolding wedi cynnig prynu coeden nadolig i'w rhoi fyny ym Mhenygroes a bod angen i'r Cyngor Cymuned benderfynnu lle oedd angen ei gosod a rhoi golau arni. **Cynnigiodd** Barry fod y goeden yn cael ei rhoi uwchben y llyfrgell, **cytunodd** pawb hefo hyn. Judith, Gavin a Robat o'r Antur i drafod ymhellach.
Cyngorydd Craig ab Iago – adroddwyd am yr argyfwng tai a'i fod wedi bod mewn cyfarfod gyda cabinets tai o wahanol siroedd ynglŷn â hyn a dywedodd fod wedi bod yn gyfarfod siomedig iawn. Craig wedi bod yn casglu sbwriel o gwmpas yr ardal dros y cyfnod clo a dweud fod yn broblem o hyd. Am geisio gyda gwahanol sefydliadau ag ysgolion i weithio ar wella y broblem. Cwynion wedi bod fod gwasanaethau bysiau yn warthus yn yr ardal, am gael cyfarfod gyda'r swyddog o'r cyngor sy'n gwneud yr amserlen i weld os y gellir gwella pethau (dyddiad y cyfarfod i'w bennu). Wedi gweld y cynlluniau ar gyfer y Ganolfan Llesiant newydd ac adrodd ei fod i'w weld yn ardderchog. Er bydd gwaith angen ei wneud i wella rhai pethau arno. Wedi derbyn cwyn ynglŷn â cyflwr y ffordd breifat yng nghefn Ffordd Rhedyw a hefyd wal yr Eglwys, ag hefyd am fynediad saff i'r fynwent. Eisiau holi pwy sydd berchen y ffordd? Dim i'w weld bod gweithredoedd ar gyfer y ffordd gefn. OP Huws am fynd i weld beth yw cyflwr y wal a rhan o'r ffordd sy'n mynd at fynedfa y fynwent gan fod y Cyngor Cymuned o bosib gyda rhyw fath o gyfrifoldeb am y darn hwn.
- 5. Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd.** Holwyd os oedd y coed ar y ffordd rhwng Penygroes a Llanllyfni wedi cael eu torri – ydi mae perchenog y tir wedi torri y coed. Y cerrig dal yn y ffordd yn Nebo – y clerc i ddilyn fyny ar hyn gyda Cyngor Gwynedd.
- 6. Taflen Ariannol a Chyllid** – Copi o'r taflenni wedi eu gyrru i'r cyngorwyr dros ebost ymlaen llaw i'r cyfarfod er mwyn iddynt gael cyfle i edrych drostynt. Nid oedd dim sylwadau ac fe'u cymeradwywyd. Diolchwyd i Gareth am fod o gymorth i Nia gyda gosod y daflen gyllid.
- 7. Ymateb Meddygfa Corwen House** – Roedd pawb wedi derbyn copi drwy ebost o'r ymateb a gafwyd gan Corwen House i'r llythyr a yrrwyd atynt wedi cyfarfod 8 Medi. Yn ychwanegol i hyn roedd llythyr wedi cyrraedd gan brifweithredwr dros dro Betsi Cadwaladr

a bu i'r cleric ddarllen y llythyr i'r cynghorwyr. **Cynnigwyd** gan OP Huws y dylid diolch i Corwen House am eu hymateb a hefyd ategu fod pawb yn dallt eu bod yn gweithio o dan amgylchiadau anodd ac bydd y Cyngor Cymuned yn monitro y sefyllfa ag yn pasio unrhyw gwynion pellach ymlaen iddynt. **Penderfynwyd** i'r cleric yrru i Corwen House yn ategu hyn.

8. Ffatri Northwood Penygroes – Adroddodd OP Huws er gwybodaeth i weddill y cynghorwyr fod grŵp newydd wedi ei sefydlu i edrych ar y posibilïadau o ddenu tenant newydd i Ffatri Northwood. Bydd OP yn adrodd ar unrhyw ddatblygiadau, gan nodi pwysicrwydd i'r Cyngor Cymuned fod a diddordeb mewn cyd weithio efo'r grŵp er lles cyflogaeth lleol.

9. Man ailgylchu Penygroes – Yn dilyn ymateb Peter Simpson yn cefnogi y cais o gael rhedeg ymgyrch am 4 mis i geisio codi ymwybyddiaeth pobl o bwysigrwydd defnyddio y man yn y ffordd gywir, **trafodwyd** y mater a **trafodwyd** gofyn i ysgolion yr ardal lunio pamffledi a posteri i annog pobl i ddefnyddio y lle yn gywir. **Trafodwyd** hefyd efallai y buasai y syniad gofyn i Peter Simpson os yw tipio slei bach wedi cynyddu ers fod pobl yn gorfod gwneud apwyntiadau i fynd i'r canolfanau ailgylchu. Hefyd **trafodwyd** os y buasai yn syniad gofyn i'r cyngor redeg gwasanaeth unwaith y mis a fuasai yn gweld sgip yn dod i Benygroes er mwyn i bobl gael rhoi offer trydanol mwy na beth sy'n medru mynd i fewn i'r bin pwrpasol sydd yno – efallai y buasai hyn yn stopio pobl rhag dympio y pethau yma yno ag mewn lleoedd eraill yn y Dyffryn. **Penderfynwyd** i'r cleric gysylltu gyda Peter Simpson i ofyn hyn.

10. Ystafelloedd Newid Talysarn – Adroddodd Sian Dafydd fod cyfarfod wedi bod ac esbonio beth a drafodwyd. Rhestrwyd y gofynion a hefyd eu bod wedi gofyn am brydles o 25 mlynedd. **Gofynwyd** os oes angen i'r Cyngor Cymuned ddal fod yn rhan o'r trafodaethau a **penderfynwyd** y dylai'r cyngor gael gwybod am beth sydd yn mynd ymlaen a hefyd y gallai arbennigedd gwahanol aelodau o'r cyngor fod o fodd i'r CPD fel mae pethau yn symud ymlaen.

11. Datblygiad Grŵp Cynefin – **Trafodwyd** nad oedd yr arolwg wedi ei wneud yn y ffordd rhwyddaf a buasai pethau wedi medru eu newid i'w wneud yn haws i bobl ei llenwi. Robot (Antur Nantlle) wedi rhoi y wybodaeth ar y wefan er mwyn i bobl fedru mynd arni a'i llenwi os ydynt eisïau.

12. Eryr Euraid Eryri – Adroddodd Gwyndaf Roberts ei fod wedi bod mewn cyfarfod yn ddiweddar a oedd yn trafod y pwnc o ollwng 5 pâr o eryrod aur yn Eryri. Esboniodd os y buasai hyn yn mynd yn ei flaen yna mewn amser ni fuasai yna fywyd gwyllt ar ôl yn Eryri am y buasai'r eryrod yn bwyta llawer o'r anifeiliaid gwyllt ond hefyd anifeiliaid fferm ac anwes. Gofynnodd i'r Cyngor Cymuned gysidro gwrthwynebu y prosiect hwn. **Trafodwyd** y mater a **penderfynwyd** y buasai yn rhaid cael mwy o wybodaeth ar y pwnc cyn penderfynu. Y cleric i holi am wybodaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a Cyngor Gwynedd ac adrodd yn nôl yn y cyfarfod nesaf.

13. Gwefan Bro 360 / Lleu – Ebst wedi ei dderbyn ynglŷn â defnyddio Gwefan Bro 360 er mwyn adrodd am bethau yn ymwneud â'r Cyngor Cymuned. **Trafodwyd** a teimlwyd bod hyn yn gyfle da i rannu gwybodaeth o'r Cyngor Cymuned. **Penderfynwyd** i'r cleric roi adroddiad at ei gilydd a'i dangos i'r cynghorwyr i gael eu barn os y dylid ei rhoi ar y wefan a'i peidio. **Cynnigiodd** Justin Davies hefyd efallai y buasai yn syniad cysidro cael tudalen Facebook ar gyfer y Cyngor Cymuned. **Trafodwyd** a **penderfynwyd** fod hyn yn syniad da. Y cleric (gyda cymorth Justin) i agor tudalen ar Facebook.

14. Bragdy Lleu – Canolfan Ymwelwyr a chyflogi – Esboniodd Justin Davies i bawb am gynllun sydd gan Bragdy Lleu ar y gweill i agor canolfan ymwelwyr a'r gallu o hyn i fedru cyflogi pobl. Gofynnodd am lythyr gan y Cyngor Cymuned i gefnogi cais y bragdy am grant. **Cytunodd** pawb i gefnogi a'r cleric i yrru llythyr ar eu rhan.

15. Materion Pentrefi – Penygroes – Adroddodd Barry Bracegirdle fod yn bryderus am gyflwr Ffordd Llwyndy a bod tyllau yn y ffordd. Gofynnodd Barry hefyd i'r cleric gysylltu gyda'r 'Trunk Road Agency' ynglŷn â'r tyfiant sydd yn dod drwodd i Cae Cwtin ond nhw sydd fod gyfrifol am ei glerio. **Cytunwyd** i'r cleric wneud hyn. Hefyd adroddodd bod yn

bryderus am y traffic sydd yn dreifio trwy Trem Y Wyddfa ar eu ffordd i Wynnstay ayyb er mwyn osgoi mynd trwy'r stryd. Holodd os oedd posib efallai cael ramp ychwanegol ar y ffordd – **cytunodd** Judith Humphreys i gysylltu gyda'r cyngor am hyn. Dywedodd Justin Davies ei fod yn bryderus am y traffic ym Mhenygroes a gofyn i roi y mater ar agenda y mis nesaf. **Cytunwyd** i hyn. Pryder hefyd wedi ei godi am gyflymder y traffic sydd yn dod o gyfeiriad Llanllyfni tuag at y cylchdro. Judith a Nia i gysylltu gyda'r adran priffyrdd am hyn a gofyn am ramp gor-yrru yn nes at y cylchdro.

Llanllyfni – Gwyndaf Roberts yn adrodd fod angen torri coed ar yr hen ffordd o Bro Haul i Graianfryn – y clerc i gysylltu gyda'r cyngor am hyn. Hefyd adroddodd fod tyfiant yn dod o wal yr eglwys sydd angen cael ei drin rhag i'r wal ddisgyn – y clerc i gysylltu gyda'r warden yr eglwys am hyn.

Talysarn – Holodd Peter Bridges os yw llwybr cyhoeddus yn Dorothea yn ddiogel i'w ddefnyddio? Wedi derbyn cwynion am eu diogelwch. Mae rhannau yn beryglus oherwydd eu bod yn serth. Y Clerc i gysylltu gyda Ffion Lloyd Jones ynglŷn â hyn.

Nebo – Adroddodd Dafydd Thomas fod twll yn y ffordd yn sgwar yNebo ac eisiau ei lenwi. Y clerc i gysylltu gyda'r cyngor am hyn. Holodd Dafydd Thomas hefyd os oes gan Gyngor Gwynedd gynlluniau i darnacio Ffordd Rhedyw, Llanllyfni yn enwedig y rhan uchaf ger Bryn Sisyllt gan fod y ffordd yno wedi dirywio yn ofnadwy. Y clerc i gysylltu gyda'r cyngor am hyn.

Nantlle – Wedi gwneud cais i Gyngor Gwynedd i gael y ffordd wedi newid i 50mya o Bro Silyn i Nantlle. Gofyn i'r Cyngor Cymuned gysylltu gyda Cynogr Gwynedd i weld beth yw'r diweddaraf hefo hyn.

16. Cynllunio: Ceisiadau sydd wedi dod ger bron – Cais C20/0785/22/YA – Fferm Taldrwst Llanllyfni – bu i Gwyndaf Roberts adael y cyfarfod tra yn trafod y cais hwn. Yn dilyn trafodaeth **cynnigwyd** gan OP Huws ac **eilwyd** gan Erfyl Williams i roi sylwadau i'w cysidro ger bron y cyngor sef, nad ydi'r loriau i drafeilio ar hyd y ffordd pan fydd y plant yn mynd i ag yn dod o'r ysgol, hefyd nodi bod yn bwysig i'r cerbydau fod hefo gorchyddion pwrpasol ar eu cefnau i stopio llwythi rhag colli ar hyd y ffordd ymhobman wrth drafeilio ac hefyd eu bod yn nodi mai dim ond nifer penodol o gerbydau a fyddai yn cael trafeilio i'r safle yn ddyddiol. **Cytunodd** pawb hefo hyn a **cytunwyd** i basio y cais gyda'r argymhellion.

Cais C20/0658/22/DT – Arfryn, 7 Ffordd Clynnog, Penygroes – dim gwrthwynebiad.

17. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis – dim byd i'w drafod yma.

18. Gohebiaeth – roedd pawb wedi derbyn y gohebiaeth a oedd wedi eu derbyn i gyd tros y mis – nid oedd dim pellach i'w drafod yma.

19. Llwybrau a Mynwentydd – Tirlunio Macpelah – Tendr yn barod i fynd allan ynglŷn â'r tarmacio, ond am na fydd y gwaith bellach yn cael ei wneud tan yr haf nesaf am ddal arni cyn eu gyrru allan. Cynllun 'Ewch a fo adref' y corlannau dal yn y fynwent sy'n golygu fod ysbwriel dal yn cael eu rhoi ynddynt. **Trafodwyd** y dylid nawr dynnu y corlannau a wedyn rhoi amser i'r cynllun o fod pawb yn mynd a'u sbwriel adref gyda nhw weithio. **Cynigiodd** OP Huws i gysylltu gyda Harri Owen er mwyn cael gwybod gan y contractwyr pryd fyddent yn medru mynd i dynnu y corlannau a **penderfynwyd** wedyn gweld sut fydd pethau mewn mis a mynd ymlaen o hynny. Sylwyd hefyd bod angen diweddarau y wefan hefo prisiau mynwentydd. Y clerc i gysylltu gyda Robat, Antur Nantlle i wneud hyn.

Llwybrau – dim i'w drafod.

20. Materion yn ymwneud â'r heddlu – Y clerc wedi rhoi gwahoddiad i Non Edwards i'r cyfarfod hwn ond nid oedd system yr heddlu yn gadael iddynt ddefnyddio zoom felly roedd yn ymddiheuro nad oedd yn medru bod yn bresennol. Dim mater arall i'w drafod yma.

21. Materion ariannol – Antur Nantlle Cyf £144 am gynnal a chadw y wefan. Nia Jones – Ffôn a rhyngwyd Hydref £25. Zoom Medi a Hydref £28.76 a nwyddau ysgrifennu a ffeilio £18.09. Cytunwyd i'w talu.

22. Ceisiadau am arian – Cais wedi dod gan Neuadd Goffa Llanllyfni.